# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion y cyfarfod arbennig o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 25 Ionawr 2016 yn Siambr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Bodlondeb. Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am.

PRESENNOL

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| P R Lewis (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R O Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D A MacRae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D J Miles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| G G Williams | Cyngor Gwynedd |

Hefyd yn bresennol:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C Everett (Clerc a Swyddog Monitro); G Owens (Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); R Simmons a R Fairhead (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G W Griffiths (Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygu); G Brandrick (Uwch Reolwr Safonau Proffesiynol y Gwasanaeth); S Millington (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); K Roberts (Uwch Reolwr Gweithrediadau); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| T A Edwards | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| C Hughes | Cyngor Gwynedd |
| P Owen | Cyngor Sir Ddinbych |
| M A Reece | Cyngor Sir y Fflint |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| D Simmons | Cyngor Sir Ddinbych |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Taylor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| | |
| K Finch | Trysorydd |

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau fod Ken Finch wedi cael ei gymryd yn sâl a'i fod yn yr ysbyty ar y pryd. Nodwyd mai'r cyfarfod hwn fyddai cyfarfod olaf y Trysorydd gan ei fod ar fin ymddeol o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar 29 Ionawr. Gofynnodd yr Aelodau i'w dymuniadau gorau gael eu mynegi i Mr Finch.

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2 MATERION BRYS

2.1 Nid oedd unrhyw faterion brys.

3 STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2016-2019 A CHYLLIDEB 2016-17

3.1 Cyflwynodd y PST yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau gymeradwyo'r strategaeth ariannol tymor canolig (MTFS) ar gyfer 2016-17 i 2018-19, ac roedd honno'n cynnwys y gyllideb ddrafft ar gyfer 2016-17.

3.2 Oherwydd fod oedi yn y cyhoeddiad am gyllideb Llywodraeth Cymru, esboniodd y PST fod rhaid cynnal y cyfarfod arbennig hwn i gwblhau manylion terfynol y gyllideb erbyn 15 Chwefror 2016; roedd yr awdurdodau cyfansoddol wedi cael gwybod am eu cyfraniadau amcanol i'r ATA erbyn 31 Rhagfyr 2015 fel yr oedd yr angen, oherwydd roedd raid i'r Awdurdod gadarnhau'r ffigyrau hyn hefyd. Roedd Llywodraeth Cymru wedi dweud y byddai'r setliad yn cynnwys gostyngiad yn y cyllid i lywodraeth leol a bod cyfanswm cyffredinol y cyllid allanol wedi gostwng, ond nid cymaint â'r disgwyl. Roedd yr Aelodau'n ymwybodol o'r pwysau hyn, ac er mwyn lleihau'r baich ar yr awdurdodau cyfansoddol, roeddent wedi cytuno i osod cyllideb wedi'i rhewi. Nododd yr Aelodau fod llythyr a ddaeth gan y Gweinidog dyddiedig 8 Rhagfyr 2015 yn cadarnhau nad oedd yn gallu rhoi sicrwydd ynghylch cyllideb LIC y tu hwnt i 2016-17.

3.3 Nodwyd bod llunio Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn sicrhau bod dull strategol yn cael ei ddilyn er mwyn ymdrin â chynllunio cyllidebau a chyllid dros y tymor hir, a bod y Cynllun Gwella blynyddol hefyd yn elfen allweddol gan ei fod yn nodi sut y mae'r Awdurdod yn bwriadu cyflawni ei gyfrifoldebau ac yn nodi'r prif amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod.

3.4 Atgoffwyd yr Aelodau eu bod wedi cytuno ar yr amcan sydd yn y Cynllun Gwella drafft i ddatblygu strategaeth ariannol dair blynedd lle bydd rhewi'r gyllideb yn egwyddor ganolog gan gychwyn yn 2016/17, ac oes angen, i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn yn y tymor byr hyd nes y bydd strategaethau wedi cael eu datblygu i leihau costau ac i lunio cyllideb fantoledig. Er mwyn gosod cyllideb wedi'i rhewi a chynnal y gwasanaethau ar y lefelau cyfredol, bydd angen ymgorffori unrhyw bwysau anochel ar gostau drwy newid y modd y darperir gwasanaethau, ac yn y tymor byr, drwy ddefnyddio cyfraniad unigol o'r cronfeydd wrth gefn.

3.5 Yng ngoleuni'r rheidrwydd i leihau costau, bydd angen i'r Awdurdod, er mwyn cynnal y gwasanaethau gweithredol, barhau ac ymestyn ei waith ar y cyd gyda'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol, yr awdurdodau lleol a'r gwasanaethau brys eraill yng Ngogledd Cymru. Mae effaith chwyddiant cyffredinol yn cael ei reoli bob blwyddyn gan brosiectau sydd â'r nod o wella effeithlonrwydd drwy leihau'r defnydd. Fodd bynnag, mae yna gostau ychwanegol sy'n anochel ac sy'n amhosib i'w rheoli am i lawr, megis dyfarniadau cyflog. Nododd yr Aelodau fod Llywodraeth y DU yn cyflwyno newidiadau i'r pensiwn gwladol o'r 1 Ebrill 2016 ymlaen. O'r blaen, fel cyflogwr a oedd yn cynnig cynllun pensiwn yn gysylltiedig â chyflog, roedd gan yr Awdurdod hawl i ad-daliad Yswiriant Gwladol o 3.4%. O ganlyniad i'r newidiadau hyn, nid yw'r ad-daliad ar gael mwyach. Amcangyfrifir mai'r gost ychwanegol i'r Awdurdod yn 2016/17 yw £329k y flwyddyn, ac ychwanegwyd y ffigwr hwn at gyllideb sylfaenol y blynyddoedd blaenorol.

3.6 Yn ogystal â pharhau i rewi'r gyllideb, bydd angen gwneud arbedion flwyddyn ar ôl blwyddyn am y tair blynedd nesaf. Ond cydnabuwyd ei bod yn ormod o fyr rybudd i wneud arbedion yn 2016/17 i sicrhau'r arbediad llawn sef £0.760 miliwn, ac felly roedd yr Aelodau wedi cytuno i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i danategu'r gyllideb. Bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau yn y dyfodol i wneud arbedion a hefyd i leihau'r effaith ar wasanaethau. Yn absenoldeb y Trysorydd, atgoffwyd yr Aelodau gan y Prif Swyddog Tân fod risg yn gysylltiedig â defnyddio cronfeydd wrth gefn ac mai dim ond am flwyddyn y byddent ar gael; bydd angen i Weithgor y Cynllun Gwella ganfod arbedion sylfaenol o gyllideb refeniw'r Gwasanaeth ar gyfer y blynyddoedd wedi hynny.

3.7 Cafodd yr Aelodau gyfle i ofyn cwestiynau, ac eglurwyd rhai materion gan y swyddogion. Cyn symud ymlaen at yr argymhellion, dywedodd y Clerc ei bod yn bwysig i'r awdurdodau cyfansoddol sylweddoli mai penderfyniad c) isod oedd nodi'r 'egwyddor' o rewi'r gyllideb am dair blynedd a phetai'r ATA yn penderfynu bod y risg yn rhy uchel byddai angen ailedrych ar y mater a gallai hynny effeithio ar gyfraniadau'r awdurdodau cyfansoddol yn y blynyddoedd i ddod.

3.8 **PENDERFYNWYD**

**(a) cymeradwyo'r gyllideb ar gyfer 2016/17 ar yr un terfyn arian parod ag yn y flwyddyn ariannol bresennol, hynny yw £31,885,843 a defnyddio £0.760 miliwn o gronfeydd wrth gefn i'w thanategu;**

**b) cydnabod y risg o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn o ran y cynlluniau ariannol ar gyfer y dyfodol;**

**c) cydnabod cynnwys y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ac yn arbennig, nodi'r egwyddor o osod y cyllidebau ar gyfer 2017/18 a 2018/19 ar yr un terfyn arian parod ag yn 2016/17.**